

MY TIME.

MY SPACE.

MY LIBRARY.

Libraries
Week

8-13
OCTOBER
2018

Pecyn offer Marchnata

Ymgysylltu â phobl, marchnata eich digwyddiad a chael
Wythnos Llyfrgelloedd wych!

Cyflwyniad

Cynhelir yr Wythnos Llyfrgelloedd rhwng 8-13 Hydref ac mae'n gyfle i ddathlu ein llyfrgelloedd hoff. Ym mis Hydref eleni, rydym eisiau i lyfrgelloedd arddangos sut maent yn dod â chymunedau at ei gilydd, trechu unigrwydd, darparu gofod ar gyfer darllen a chreadigrwydd a chynorthwyo pobl gyda'u llesiant a'u hiechyd meddwl. Rydym yn awyddus i bobl ddod ynghyd gyda'u cymuned leol i deimlo'n dda yn y llyfrgell a chael profiad y byddant eisiau ei rannu ag eraill. Manteisiwch ar y cyfle i farchnata eich llyfrgelloedd er mwyn helpu mwy o bobl i ddarganfod y gwasanaethau llesiant sydd ganddynt i'w cynnig.

Mae'r canllaw byr hwn yn darparu argymhellion ar sut y gall eich llyfrgell chi fanteisio i'r eithaf ar Wythnos Llyfrgelloedd 2018.

#librariesweek

Tips for making the most of Libraries Week:

1. Targeddu eich dulliau marchnata

- Byddwch yn glir ynghylch pwy rydych eisiau eu cyrraedd gyda'ch marchnata.
- Nodwch yr hyn rydych yn ei wybod am eich cynulleidfa darged, gan gynnwys ym mha beth y mae ganddynt ddiddordeb, pa werthoedd sydd ganddynt, pa gyfryngau maent yn eu defnyddio a'r lleoedd y byddant yn ymweld â hwy.
- Yn ddelfrydol, dylech geisio deall eu hagweddau at lyfrgelloedd a'r anghenion sydd ganddynt y gallwch chi eu diwallu.
- Nodwch sut y gallwch gyrraedd y gynulleidfa sydd gennych gan gynnwys pa ddata cysylltu sydd gennych.
- Datblygwch eich cynnig, negeseuon a'ch cyflwyniad er mwyn apelio i'ch cynulleidfa.
- Dylech gyflwyno eich negeseuon, monitro eich canlyniadau, ailadrodd negeseuon a'u haddasu yn ôl yr angen.

2. Cynnwys dulliau digidol wrth i chi farchnata

Mae siarad â'ch cynulleidfa yn dibynnu'n fawr ar fod yn rhan o'r gymuned – a hynny ar-lein ac all-lein. Mae yna gymaint o resymau da i chi hyrwyddo eich gweithgareddau ar-lein.

Mae sianelau ar-lein yn galluogi i'ch llyfrgell gael presenoldeb gweladwy a pharhaus yn eich cymuned.

Gallwch gadw mewn cysylltiad â'ch defnyddwyr yn rhwydd a chyflwyno eich hun i gynulleidfaedd newydd, neu ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r bobl yr ydych yn awyddus i ddal eu sylw, gan gynnwys gwleidyddion lleol, newyddiadurwyr ac yn y blaen.

Mae'n bosibl creu eich dyluniadau syml eich hun a'ch digwyddiadau marchnata ar-lein yn gyflym ac am ddim.

Ond, yn anad dim, mae cymaint o bobl yn dibynnu ar eu dyfeisiadau i wneud cynlluniau a chael gwybod beth sy'n digwydd.

3. Ond, peidiwch ag anghofio am y cyfryngau traddodiadol!

Gyda deunyddiau brandio, templedi a'r offer sydd ar gael am ddim ar gyfer yr Wythnos Llyfrgelloedd, dylai fod yn gyflym a chyfleus i chi gynhyrchu deunyddiau argraffedig o safon uchel. Mae cwmnïau argraffu digidol yn dosbarthu deunyddiau yn gyflym ac am gost gymharol isel.

Dylech ystyried:

- Arddangosfa yn hyrwyddo'r Wythnos Llyfrgelloedd y tu allan i'ch llyfrgell neu yn y ffenestri.

- Posteri a thafenni mewn siopau llyfrau, canolfannau cymunedol, siopau coffi, meddygfeydd lleol neu unrhyw le arall y mae eich cynulleidfa darged yn ymweld â hwy.
- Dosbarthu tafenni ar y stryd (ar yr amod bod gennych ganiatâd i wneud hynny).
- Eich sefydliad a'r deunyddiau argraffedig y mae'n eu cynhyrchu, efallai eu bod yn argraffu cylchgrawn a gallech gynnwys hysbyseb yn hyrwyddo eich gweithgareddau Wythnos Llyfrgelloedd.

4. Creu cyfryngau ar gyfer eich llyfrgell chi

Mae'n fuddiol datblygu eich presenoldeb ar-lein chi. Yn ogystal â gwefan eich sefydliad, mae'n wych i'r llyfrgell fod yn bresennol ar ei sianelau ar-lein ei hun, boed hynny'n ffrwd Twitter, tudalen Facebook neu Instagram, sianel YouTube ac yn y blaen.

Mae llwyfannau postio digwyddiadau a blogio yn ffordd wych arall i gyhoeddi eich newyddion a galluogi pobl i ganfod eich digwyddiad ar-lein, ac ymddangos ar ffrydiau newyddion pobl eraill. Os ydych yn postio cynnwys ac yn rhannu dolenni i'ch gweithgareddau yn rheolaidd, byddwch yn fwy gweladwy ar-lein – mae mor syml â hynny.

Byddem yn eich annog i gyhoeddi eich digwyddiadau'r Wythnos Llyfrgelloedd a rhannu eich gwybodaeth a'ch gweithgareddau cyn gynted â phosibl er mwyn i chi gael amser i hyrwyddo a rhannu'r cynnwys.

Defnyddiwch yr hashnod [#wythnos llyfrgelloedd #librariesweek](#) er mwyn i chi fod yn rhan o'r sgwrs fwy yn y cyfnod sy'n arwain at, ac yn ystod yr Wythnos Llyfrgelloedd.

Rhannwch newyddion a gwybodaeth cyn ac ar ôl unrhyw ddigwyddiadau yr ydych yn eu trefnu e.e. postio ffotograffau, trydaru am siaradwyr a manylion pellach am weithgareddau, cyhoeddi graffig neu ddalen ddigwyddiadau ac yn y blaen.

5. Defnyddiwch dôn briodol, delweddau da a defnyddio fideo

Mae delweddau da a thôn anffurfiol, sgwrsiol yn hollbwysig er mwyn bod yn drawiadol a chael pobl i ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dangos eich personoliaeth - a defnyddio delweddau o ansawdd da ac offer ar-lein syml i gynhyrchu postiadau deniadol - yw'r ffordd i feistrolir cyfryngau cymdeithasol a marchnata i bobl yr un pryd.

Mae pobl yn disgwyl gweld hysbysebion, fideos, delweddau a chynnwys o safon weledol dda ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol.

Os nad oes gennych lyfrgell o ddelweddau perthnasol, o ansawdd da i'w defnyddio yn eich ymgyrchoedd marchnata, mae digon o leoedd lle gallwch gael ffotograffau a delweddau y gallwch eu defnyddio o dan drwydded priodoli creadigol cyffredin. Gallech roi cynnig ar y rhain:

Flickr – defnyddio'r [uwch chwiliad](#) ac o dan 'license type' dewis y drwydded Priodoli Creadigol Cyffredin briodol i'ch anghenion chi.
[Ffotograffau llyfrgell am ddim i'w defnyddio](#) (Grŵp Flickr)
[Pixabay](#)
[Unsplash](#)

[Defnyddiwch yr Wythnos Llyfrgelloedd i gynhyrchu delweddau a fideos ar gyfer hyrwyddo yn ystod yr wythnos ac ar gyfer ymgyrchoedd marchnata yn y dyfodol.](#) Ar y cyfan rydym yn ymateb i bobl mwy na lleoedd mewn delweddau a fideos - felly gwnewch yn siŵr eu bod yn cynnwys pobl a'u bod yn arddangos yr hyn a wnewch mewn ffordd gadarnhaol ac uchelgeisiol.

6. Gwneud defnydd da o adnoddau'r llyfrgell

Waeth pa mor fawr neu fach yw eich llyfrgell, a faint o adnoddau sydd ganddi, mae gennych gronfa euraid o ffynonellau ar gyfer darluniau a chynnwys yn y llyfrgell a'ch cymuned o ddefnyddwyr y gallwch eu defnyddio i greu presenoldeb gwirioneddol, arddangos yr hyn a wnewch ac ymgysylltu pobl yn y digwyddiadau yr ydych wedi'u trefnu.

Mae'n werth edrych ar sut y mae'r cyfrifon llyfrgell hyn yn cyfuno delweddau o gasgliadau, gwasanaethau, defnyddwyr, adeiladau ac asedau eraill y llyfrgell mewn tŷn hwylus i greu diddordeb yn eu newyddion a'u digwyddiadau arbennig:

[Llyfrgell Orkney ar Twitter](#)
[WCC KC HF healthinfo](#)
[Llyfrgell IOE ar Twitter](#)
[Llyfrgelloedd Leeds ar Twitter](#)
[Llyfrgell Prifysgol Newcastle ar Facebook](#)
[Llyfrgell Bodelian ar Instagram](#)

7. Meistroli rhai offer syml ar y we

Gallwch greu argraff mewn sawl ffordd wahanol a chynhyrchu deunydd hyrwyddo o ansawdd uchel gydag offer cyhoeddi a dylunio am ddim ar-lein. Ymhlith rhai o'r llwyfannau syml i roi cynnig arnynt mae:

Canva <<https://www.canva.com/>>: Offer gwych ar gyfer dod â'ch ymgyrch yn fyw drwy greu posteri a thafleuni baneri drwy offer hawdd ei ddefnyddio. Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o dempledi o feintiau gwahanol i chi (e.e. baneri ar gyfer postiadau Twitter, posteri A4) yn ogystal â'r opsiwn i greu asedau mewn meintiau penodol i chi, gan ddod â thestun, ffotograffau a gwaith graffig ynghyd. Mae tiwtorial i'r rhai dibrofiad yn eich plith ar gael [yma](https://designschool.canva.com/tutorials/beginners-challenge/) <<https://designschool.canva.com/tutorials/beginners-challenge/>>

Wordpress, Blogger, Wix: Mae blog yn darparu lle i chi ddweud wrth eich cymuned beth sydd wedi'i drefnu, sut y gallant hwy gymryd rhan gyda'r gobaiith o ddatblygu perthynas tymor hwy gyda hwy. Mae yna amrediad o wasanaethau blogio ar gael y gallwch gael gafael arnynt yn gyfleus ar-lein heb orfod poeni am wneud newidiadau i wefan eich llyfrgell.

Twitter, Facebook, Instagram: Mae angen i lyfrgelloedd fod yn y llefydd lle mae eich defnyddwyr ac nid yw'n gyfrinach bod pobl yn treulio mwy o amser ar y tri llwyfan hyn. Mae Twitter yn wych ar gyfer gwneud cyhoeddiadau ynghylch yr hyn sy'n digwydd, mae Instagram yn wych ar gyfer cynnwys mwy gweledol a bydd Facebook yn eich gwobrwyo drwy ddsbarthu storïau a delweddau mwy diddorol.

Twitter Moments <<https://help.twitter.com/en/using-twitter/how-to-create-a-twitter-moment>>: Nawr bod Storify wedi dod i ben, mae'n debyg mai Twitter Moments yw'r offer gorau ar gyfer creu stori drwy guradu negeseuon twitter. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hyrwyddo eich stori i'ch dilynwyr a defnyddio #wythnosllyfrgelloedd #librariesweek

Eventbrite: Mae Eventbrite yn darparu ateb cyfleus os ydych yn trefnu digwyddiad lle'r ydych eisiau gwerthu tocynnau neu gyfyngu ar y niferoedd sy'n ei fynychu. Mae'r gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau am ddim ac mae tâl cymharol isel ar gyfer digwyddiadau y telir amdanynt.

Animoto <<https://animoto.com/>>: Mae fideo yn dod yn gyfrwng pwysicach ar y we ac mae Animoto yn darparu offer gwych i gysylltu eich ffotograffau a'ch clipiau fideo chi at ei gilydd. Mae'r [canllaw hwn i ddechreuwr <https://animoto.com/guide/welcome>](https://animoto.com/guide/welcome) yn eich helpu i ddechrau arni.

Fideos YouTube a Facebook: mae'r rhain yn darparu atebion gwych ar gyfer rhannu cynnwys fideo. Mae YouTube yn darparu dolenni mewnosodadwy er mwyn i chi allu rhannu eich fideos ar draws y cyfryngau gwahanol ac mae cynnwys fideo fel arfer yn sicrhau lefelau ymgysylltu uwch ar Facebook o gymharu â thestun a darluniau.

8. Defnyddio dyluniadau, brandio a deunyddiau'r Wythnos Llyfrgelloedd

Defnyddiwch ein posteri a thempledi a graffig a deunyddiau brandio'r Wythnos Llyfrgelloedd i hysbysebu'r hyn sy'n digwydd a'ch helpu i ledaenu'r neges.

Byddem yn hoffi pe byddech yn newid eich pennawd Facebook neu Twitter i ddyluniad yr Wythnos Llyfrgelloedd. (Mae Canva yn wych ar gyfer gwneud eich rhai eich hun os byddai'n well gennych chi). Gallwch hefyd ychwanegu awtolofnod yr Wythnos Llyfrgelloedd i'ch negeseuon e-bost.

Dylech annog eich defnyddwyr a'ch dilynwyr i gymryd rhan drwy lawrlwytho deunyddiau cefnogwyr a rhannu eu profiad gyda'r hashnod #wythnosllyfrgelloedd #librariesweek.

Gallwch ddefnyddio a rhannu pob un o'n graffigau ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae popeth sydd ei angen arnoch ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y [wefan](#).

9. Datblygu eich cynulleidfa

Gwnewch bopeth y gallwch i ddatblygu perthynas gyda'ch cynulleidfa, drwy:

- Annog ymwelwyr i ymuno â'r llyfrgell, cofrestru â'ch cylchlythyr e-bost, mynychu digwyddiad ac argymhell y llyfrgell i ffrind.

- Annog dilynwyr y cyfryngau cymdeithasol i gofrestru i'ch cylchlythyr e-bost, mynychu digwyddiadau arbennig neu ymweld â'r llyfrgell.
- Nodi ffyrdd y gall pobl gefnogi h.y. drwy ddod yn 'ffrind' i'r llyfrgell, drwy ddarparu dyfyniad neu eirida ar gyfer eich ymgyrch marchnata, neu drwy gysylltu â'ch gwleidyddion neu benderfynwyr lleol ynglŷn â phwysigrwydd y llyfrgell.

[Gallai'r canlynol fod o ddiddordeb i chi](#)

[Libraries and social media: the activity is important, not the tool](#) – Phil Bradley, 19 Ionawr 2015

[Marketing your library](#)- Emerald Publishing

[Superlibrarymarketing.com](#)

[CILIP PPRG Marketing Excellence Award winners](#)

[Expert tips for marketing your library](#) – Liber, 3 Mehefin 2013

[The library marketing toolkit](#), Facet Publishing

Darllenwch y bennod hon sydd am ddim ar-lein: [Seven key concepts for marketing libraries](#)

Libraries
Week
8-13
OCTOBER
2018

Wythnos Llyfrgelloedd 8-13 HYDREF 2018

Attribution-ShareAlike 2.0 UK: Cymru a Lloegr ([CC BY-SA 2.0 UK](#))
Mae croeso i chi ddefnyddio, copio, addasu, trawsnewid ac adeiladu ar y deunydd hwn.